Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Cynorthwyo'r gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth mewn amserau heriol

Crynodeb o'n gwaith yn 2020–2021

2020
2021

# Amdanom ni

Ein gweledigaeth yw nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithio a charedig sy'n gwella iechyd a llesiant pawb. Fel rheoleiddiwr proffesiynol bron 732,000 o nyrsys a bydwragedd proffesiynol, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae mewn gwireddu hyn.

Ein rôl graidd yw i **reoleiddio**. Yn gyntaf, rydym yn hyrwyddo safonau addysg a phroffesiynol uchel i nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a nyrsys cyswllt yn Lloegr. Yn ail, rydym yn cynnal y gofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer. Yn drydydd, rydym yn ymchwilio i bryderon am nyrsys, bydwragedd a nyrsys cyswllt – rhywbeth sy'n effeithio ar lai nac un y cant o weithwyr proffesiynol bob blwyddyn. Rydym yn credu mewn ystyried y cyd-destun mae digwyddiadau'n digwydd ynddo a rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol ateb pryderon, ond byddwn yn gweithredu pan fydd angen o hyd.

I reoleiddio'n dda, rydym yn **cynorthwyo'n** proffesiynau a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau a chyfarwyddyd sy'n ddefnyddiol trwy gydol gyrfaoedd pobl, gan eu helpu i ddarparu'n safonau mewn ymarfer a mynd i'r afael â heriau newydd. Rydym hefyd yn cynorthwyo pobl sy'n rhan o'n hymchwiliadau, ac rydym yn cynyddu'n gweladwyedd fel bod pobl yn teimlo eu bod wedi'u hymgysylltu a'u grymuso i ffurfio'n gwaith.

Mae rheoleiddio a chynorthwyo'n proffesiynau yn caniatau i ni **ddylanwadu** ar iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn rhannu gwybodaeth o'n gweithgareddau rheoleiddiol ac yn gweithio gyda'n partneriaid i gynorthwyo cynllunio gweithlu a gwneud penderfyniadau ar draws y sector. Rydym yn defnyddio'n llais i godi llais dros amgylchedd gwaith iach a chynhwysol i'n proffesiynau.

Mae'n gwerthoedd ac ymddygiadau yn ffurfio'n diwylliant, gan ddylanwadu ar y gwaith rydym yn ei wneud a sut yr ydym yn ei wneud.

**Rydym yn deg**

**Rydym yn uchelgeisiol**

**Rydym yn garedig**

**Rydym yn gydweithredol**



# Ein cofrestr mewn rhifau

## Cofrestr barhaol ar 31 Mawrth 2021

| 681,527 | 39,070 | 6,968 | 4,353 |
|---|---|---|---|
| o nyrsys | o fydwragedd | o rai wedi'u cofrestru'n ddeuol | o nyrsys cyswllt |

mae cyfanswm o **731,918** Pobl

Roedd 15,457 o bobl ychwanegol ar ein cofrestr dros dro Covid-19.

# Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth ein cofrestr barhaol

**21.7%** Mae 21.7 y cant o'r bobl ar ein cofrestr o gefndiroedd lleiafrifol ethnig.

**0.7%** Dywedodd 0.7 y cant nad yw eu hunaniaeth rhywedd yn cydweddu â'r rhyw y cawsant eu cofrestru ynddi ar enedigaeth.

**3.6%** Mae gan 3.6 y cant anabledd.

**11.4%** Mae 11.4 y cant o nyrsys yn uniaethu'n wrywaidd.

**0.3%** Mae 0.3 y cant o fydwragedd yn uniaethu'n wrywaidd.

**13.7%** Mae 13.7 y cant o nyrsys cyswlt yn uniaethau'n wrywaidd.

**0.9%** Mae 0.9 y cant o rai wedi'u cofrestru'n ddeuol yn uniaethau'n wrywaidd.



# Ein heffaith mewn rhifau

# Ein heffaith mewn rhifau

Rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021 fe wnaethom groesawu

**34,577**

o weithwyr proffesiynol i'n cofrestr barhaol am y tro cyntaf.

Cwblhaodd mwy na

**99%**

y cant o geisiadau cofrestru'r DU cyntaf o fewn un diwrnod.

(ein targed oedd 97 y cant)

**99.4%**

o geisiadau tramor

+

**99.7%**

y cant o geisiadau o'r UE/AEE

**gwblhau o fewn ein nod o 30 diwrnod.**

(ein targed oedd 90 y cant)

Fe wnaethom newid ein targed o 60 diwrnod i 30 o ganlyniad i'r gwelliannau i'r system a gafodd eu cyflwyno yn Hydref 2019.

# Revalidation

I helpu codi'r pwysau ar y gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth yn ystod y pandemig, fe wnaethom estyn yr amser oedd gan bobl i gwblhau eu hailddilysu. Rydym yn credu i hyn fod yn fesur effeithiol a chytbwys a alluogodd gweithwyr proffesiynol i ganolbwyntio ar y pandemig a chwblhau eu hailddilysu pan oeddent yn fwy abl i wneud hynny.



**Yn 2020–2021**

**179,361***

**gweithwyr proffesiynol yn ailddilysu'n brydlon.**

Mae hyn yn is na'r flwyddyn flaenorol oherwydd yr estyniadau ailddilysu a roesom yn ystod y pandemig.

*80.7%

## Addasrwydd i ymarfer mewn rhifau 2020–2021

Yn 2020–2021 fe wnaethom dderbyn

**5,547**

**o bryderon newydd**

am nyrsys, bydwragedd a nyrsys cyswllt.

(3% yn llai na'r flwyddyn flaenorol)

Fe wnaethom benderfynu peidio ag ymchwilio i

**2,788**

**o achosion**

o achosion ar ôl asesiad dechreuol.

# Ein heffaith mewn rhifau

**Gorchmynion dros dro:**

mae'n panelau yn gallu gosod cyfyngiadau dros dro ar ymarfer rhywun neu'i atal tra bo'n hymchwiliadau'n parhau. Digwyddodd hyn mewn 549 o achosion eleni.

(2019–2020: 561)

**Digwyddodd hyn mewn**

**549**

**o achosion eleni.**

**Yn 2020–2021, fe wnaethom gwblhau**

**1,083 o ymchwiliadau**

(2019–2020: 1,405)

**73**

**Achosion**

Fe wnaethom roi cyngor, rhoi rhybudd, neu gytuno ar fesurau fyddai'n mynd i'r afael â'r broblem.

**435**

**Achosion**

eu cyfeirio at baneli addasrwydd i ymarfer.

**573**

**Achosion**

we investigated, there was no need for further action.

Dim ond 56 o bobl a aeth trwy'r broses addasrwydd i ymarfer a gafodd eu tynnu o'r gofrestr yn 2020–2021. Cafodd 39 yn ychwanegol eu tynnu'n wirfoddol. Mae hynny'n 0.01 y cant o gyfanswm y nifer o bobl ar ein cofrestr.

# Ein targedau perfformiad addasrwydd i ymarfer.*

*Gweler tudalen 16 am gyd-destun.

Fe wnaethom gau

**72%**

o'n hachosion o fewn 15 mis.

(Targed: 80%)

Fe wnaethom osod

**78%**

o orchmynion dros dro o fewn 28 diwrnod o bryderon yn cael eu codi i ni.

(Targed: 80%)

# Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn addasrwydd i ymarfer

**8.5%** o'r holl atgyfeiriadau bydwragedd newydd ar gyfer pobl o ethnigrwydd Du Affricanaidd.

(mae 2.3 y cant o fydwragedd ar y gofrestr barhaol yn Ddu Affricanaidd)

**14.1%** o'r holl atgyfeiriadau nyrsys newydd ar gyfer pobl o'r grŵp ethnig Du Affricanaidd.

(mae 7.5 y cant o nyrsys ar y gofrestr barhaol yn Ddu Affricanaidd)


**23%** o atgyfeiriadau newydd yn ymwneud â dynion.

(mae 10.8 y cant o bobl ar y gofrestr barhaol yn ddynion)

# Pobl yn yr NMC

## Trosiant Cyflogeion


Syrthiodd i **5.6%** rhag **13.5%** y flwyddyn flaenorol.



## Dechreuwyr Newydd

Syrthiodd y nifer o ddechreuwyr newydd a adawodd o fewn chwe mis i **6.8%**

Roedd hyn i lawr o **12.7%** y flwyddyn flaenorol.



# Beth wnaethom ei wario yn

2020–2021


Ein hincwm oedd

# £92 Million

Fe wnaethom wario

# £81.6 Million

## Mae'r diagram isod yn dangos dadansoddiad o sut y gwnaethom wario'r arian hwn.



# Beth wnaethom ei gyflawni

Mae 2020–2021 wedi bod yn un o'r blynyddoedd mwyaf heriol mewn amserau modern i nyrsio a bydwreigiaeth. Mae'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr wedi bod wrth galon ymateb y DU i'r pandemig Covid-19. Mae Covid-19 hefyd wedi'n herio yn yr NMC. Fe wnaethom ddysgu pa mor addasadwy, ymatebol a hyblyg y gallwn fod tra'n parhau i reoleiddio'n ddiogel ac yn effeithiol.

## Ymateb i bandemig Covid–19

Cymeradwyodd ein Cyngor ein strategaeth newydd ar gyfer 2020–2025 a'n cynllun corfforaethol ar gyfer 2020–2021 ym Mawrth 2020, fel y cymerodd y pandemig Covid-19 afael. Roedd hyn yn golygu bod rhaid i ni oedi ar rai o'n gweithgareddau arfaethedig ac ailganolbwyntio'n gyflym ar ein blaenoriaethau strategol.

### Cofrestr dros dro Covid–19

Yn gynnar yn y pandemig fe wnaethom gyflwyno cofrestr dros dro Covid-19 i helpu ehangu'r gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth. Mewn camau, fe wnaethom wahodd dau grŵp cyffredinol o weithwyr proffesiynol i ymuno â'r gofrestr dros dro:

- nyrsys a bydwragedd oedd wedi gadael ein cofrestr barhaol o fewn y bum mlynedd blaenorol
- gweithwyr proffesiynol wedi'u hyfforddi'n rhyngwladol yng nghamau olaf eu ceisiadau i ymuno â'r gofrestr barhaol.

**Ar ddiwedd y flwyddyn roedd**

**15,457**

**o bobl ar y gofrestr dros dro Covid–19.**



### Safonau brys ac adferiad

Fe wnaethom hefyd roi safonau addysg brys mewn grym i sicrhau parhad addysg nyrsio a bydwreigiaeth. Caniataodd y safonau hyn i rai myfyrwyr gyfrannu at yr ymateb i'r pandemig trwy leoliadau clinigol estynedig.

Yn ddiweddarach fe wnaethom ddisodli'r safonau brys hyn â safonau adferiad. Cynorthwyodd y safonau adferiad hyn fyfyrwyr i ddychwelyd i addysg mor normal â phosibl. Fe wnaethom ailgyflwyno rhai o'n safonau brys yn ystod ail don y pandemig.

### Estyniadau ailddilysu

Fe wnaethom gydnabod y byddai rhai gweithwyr proffesiynol yn cael anawsterau i ailddilysu yn ystod yr argyfwng Covid-19 digynsail. I leddfu'r pwysau ac i leihau pryder fe wnaethom ddefnyddio'n pwerau brys i estyn yr amser oedd gan bobl i gwblhau eu hailddilysu yn ystod dwy don y pandemig. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi cyfarwyddyd penodol am hyn.

## Ol-groniad Addasrwydd i Ymarfer (FtP)

Roedd y nifer o bryderon addasrwydd i ymarfer nad oeddem wedi gwneud penderfyniad terfynol yn eu cylch wedi dechrau cynyddu erbyn diwedd 2019–2020. Roedd hyn yn rhannol oherwydd ffyrdd wedi'u canoli fwy ar yr unigolyn o weithio, a swyddi gwag mewn timau allweddol. Roeddem wedi dechrau mynd i'r afael â hyn cyn y pandemig.

Pan gychwynnodd y pandemig, roedd ein hymateb yn cynnwys symudiad at wrandawiadau rhithiol. Fe wnaethom hefyd ohirio popeth ond yr achosion mwyaf difrifol, fel y gallai gweithwyr proffesiynol a'u cyflogwyr ganolbwyntio ar yr argyfwng. Golygodd hyn i'n hôl-groniad barhau i gynyddu.

Yn Ionawr 2021 fe wnaethom lansio'n Rhaglen Gwella Addasrwydd i Ymarfer – amrywiaeth uchelgeisiol o welliannau i'n prosesau addasrwydd i ymarfer a gwneud penderfyniadau. Bydd y newidiadau hyn yn ein helpu i leihau'r ôl-groniad yn gyflym ac yn deg.

Me'n gwelliannau'n cynnwys ymagwedd newydd, fwy cyson at ystyried cyd-destun yn ein penderfyniadau. Rydym hefyd wedi datblygu adnodd newydd seiliedig ar y we i gyflogwyr, gan eu cynorthwyo i ymdrin yn gyntaf â phryderon a'n galluogi ni i ganolbwyntio ar yr achosion mwyaf difrifol.

## Prawf cymwyster wedi'i ddiweddaru

Roeddem wedi bwriadu lansio prawf cymhwyster wedi'i ddiweddaru yn haf 2020. Dyma'r prawf fydd gweithwyr proffesiynol rhyngwladol yn ei gymryd i ymuno â'n cofrestr, ac y bydd pobl yn ei gymryd i ailymuno ar ôl cyfnod maith i ffwrdd o ymarfer. Roedd eisiau datblygu'r prawf hwn arnom i adlewyrchu'n safonau newydd i nyrsys a bydwragedd, ond golygodd y pandemig fod rhaid i ni ohirio ei roi ar waith i Awst 2021.


Ym Mawrth 2021 fe wnaethom lansio canolfan wybodaeth bwrpasol â gwybodaeth allweddol a chyfarwyddyd i ymgeiswyr, recriwtwyr a chyflogwyr am y prawf cymhwyster wedi'i ddiweddaru cyn y lansiad. Mae'n cynnwys cymorth a pharatoad i'r rheini sy'n paratoi ar gyfer y prawf yn ogystal â ffug arholiadau a llawlyfrau.

## Adeiladu ar uchelgeisiau ar gyfer nyrsio yn y gymuned ac iechyd cyhoeddus

Mewn cydgynhrychiad â gweithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid, fe wnaethom ddatblygu safonau addysg ôl-gofrestru ar gyfer ymgynghoriad. Mae'r safonau hyn ar gyfer cymwysterau nyrsio iechyd cyhoeddus arbenigol yn y gymuned (SCPHN) ac ymarfer arbenigol (SPQs).

Fe wnaethom redeg ein holl weithgaredd ymgysylltu cyn cofrestru ar-lein. Ehangodd hyn ein cyrhaeddiad, yn enwedig i ymarferwyr llinell flaen, a helpodd ni i ymgysylltu

â mwy na 2,000 o randdeiliaid ledled y DU. Oherwydd y pandemig, ni allem gwblhau'n hymgynghoriad cyhoeddus cyn diwedd 2020–2021 fel y bwriadwyd. Fe wnaethom lansio'r ymgynghoriad cyhoeddus ar ddechrau Ebrill 2021.



**Roedd dros**

**700,000**

**o wyliadau o'r animeiddiadau.**

## Gofalu â Hyder

Fel rhan o'n cymorth rhagweithiol i'n proffesiynau, fe wnaethom ddatblygu cyfres o animeiddiadau o'r enw Caring with Confidence: The Code in Action. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar rolau nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol, a sut mae'r Cod yn gallu'u cynorthwyo i gynnal safonau uchel, yn enwedig mewn sefyllfaoedd anodd.

O fwy na 450 o bobl a ymatebodd i arolwg adborth: dywedodd 92 y cant fod yr animeiddiadau wedi gwneud iddynt deimlo'n fwy hyderus am y pwnc a sut mae'n perthyn i'w gwaith fel gweithwyr proffesiynol cofrestredig. Dywedodd 92 y cant fod y math hwn o adnodd yn eu helpu i gynnal safonau uchel yn ystod amgylchiadau heriol.

## Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI)

Mae'n hymrwymiad at gydraddoldeb. amrywiaeth a chynhwysiant yn llinyn trwy'n holl waith. Yn 2020–2021 fe ddaethom yn rheoleiddiwr iechyd a gofal proffesiynol cyntaf i lofnodi Safon Cydraddoldeb Hil Gweithlu'r GIG. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi am y tro cyntaf ein hadroddiadau bwlch cyflog anabledd ac ethnigrwydd ochr yn ochr â'r adroddiad bwlch cyflog rhywiau.

Yn Hydref 2020 fe wnaethom rannu'n blaenoriaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wedi'u diweddaru fel rhan o'n fframwaith EDI diwygiedig. Fe wnaethom hefyd rannu'n hadroddiad cyntaf yn ein prosiect ymchwil Ambitious for Change. Edrychodd hyn ar effaith ein prosesau rheoleiddiol â nodweddion gwahanol wedi'u diogelu. Fe wnaethom ganfod bod pobl weithiau'n derbyn canlyniadau gwahanol o'n prosesau yn seiliedig ar bwy ydynt.

## Gweithio o bell

Gyda'n swyddfeydd wedi cau am y rhan fwyaf o 2020–2021, cafodd y rhan fwyaf o'n gwaith ei wneud o gartref. Fe wnaethom symud ein cyfarfodydd mewnol ac allanol ar fideogynhadledd rhithiol. Fe wnaethom symud yn raddol i wrandawiadau rhithiol, hefyd. Fe wnaethom alluogi'n canolfan gyswllt i weithio o bell. Fe wnaethom gynorthwyo cydweithwyr i weithio o gartref ac i baratoi i ddychwelyd i'r swyddfa pan fydd yr amser yn iawn.

2020
2021

23 Portland Place, London W1B 1PZ
T +44 20 7333 9333

**nmc.org.uk**

@nmcnews
@nmcuk

The nursing and midwifery regulator for England, Wales, Scotland and Northern Ireland. Registered charity in England and Wales (1091434) and in Scotland (SC038362)

NMC Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth